# 11. Y cwricwlwm

1. Rhannwyd y bennod hon yn dair adran, â phob un yn rhoi trosolwg o wybodaeth i helpu i ddeall rôl a chyfrifoldebau llywodraethwyr ac ymarferwyr wrth fynd ati i gyflwyno:

i. Y Cwricwlwm i Gymru (o 2022);
ii. y Cwricwlwm Cenedlaethol presennol; a
iii. gofynion statudol eraill.

2. Bydd y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei gyflwyno'n raddol i ysgolion a lleoliadau a gynhelir o fis Medi 2022. Yn ymarferol, bydd hyn yn golygu y bydd yn ofynnol i bob ysgol gynradd weithredu y cwricwlwm newydd y maent wedi'i fabwysiadu ac y bydd ysgolion uwchradd yn gorfod cyflwyno Cwricwlwm newydd Cymru o flwyddyn i flwyddyn naill ai o 2022 neu 2023. Mae rhagor o wybodaeth am ysgolion uwchradd yn mabwysiadu cwricwlwm yn 2022 ar gael yn Cwricwlwm i Gymru: y daith at weithredu'r cwricwlwm.

## Y Cwricwlwm i Gymru

### Trosolwg

3. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn gofyn i bob ysgol yng Nghymru ddylunio, mabwysiadu a gweithredu ei gwricwlwm ei hun sy'n addas i'w ddysgwyr. Cefnogir ysgolion wrth eu gwaith drwy fframwaith o ganllawiau sy'n galluogi defnyddio dull cenedlaethol o weithredu sy'n sicrhau cysondeb i ddysgwyr ledled y wlad.

11.1 Diben y Cwricwlwm i Gymru yw ei gwneud yn bosibl i bob dysgwr ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben.

4. Cynhyrchwyd canllawiau a'u rhannu ar Hwb i gefnogi ysgolion i gynllunio a gweithredu eu cwricwlwm eu hunain mewn ffyrdd sy'n helpu eu dysgwyr i ddatblygu tuag at y pedwar diben – y man cychwyn a'r dyhead ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru.

5. Mae canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru ar gael yn https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/. Maent yn cynnwys y canlynol:

- Cyflwyniad i ganllawiau'r Cwricwlwm i Gymru.
- Crynodeb o'r ddeddfwriaeth.
- Cynllunio eich cwricwlwm.

- Trefniadau Asesu.
- Y daith at gyflwyno'r cwricwlwm.
- Cynllun gweithredu.
- Y Meysydd Dysgu a Phrofiad -
  - Datganiadau o’r hyn sy’n bwysig – y ‘syniadau mawrion’ ac egwyddorion allweddol ymhob Maes.
  - Egwyddorion cynnydd – sut mae dysgwyr yn gwneud cynnydd gydol eu dysgu ar draws y cwricwlwm.
  - Disgrifiadau dysgu – sut y dylai dysgwyr wneud cynnydd o fewn pob datganiad o’r hyn sy’n bwysig.
  - Cynllunio eich cwricwlwm – egwyddorion ar gyfer pob Maes – arweiniad mwy penodol fesul Maes ar ddatblygu cwricwlwm.

**Crynodeb o'r dyletswyddau**

6. Mae'r canlynol yn grynodeb o'r dyletswyddau a roddir ar gyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion o dan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("Deddf 2021”). Ceir rhestr lawn o'r gofynion ar gyfer pawb sy'n ddarostyngedig i Ddeddf 2021 yn: Crynodeb o'r ddeddfwriaeth – Hwb (llyw.cymru).

**Yn gryno:**

**Y corff llywodraethu a'r pennaeth:**

- Rhaid i'r pennaeth a'r corff llywodraethu fabwysiadu eu cwricwlwm, a chyhoeddi crynodeb ohono, ar y cyd.
- Rhaid i'r corff llywodraethu a'r pennaeth sicrhau y caiff y cwricwlwm a fabwysiadwyd ei roi ar waith yn unol â'r gofynion.
- Rhaid i'r pennaeth a'r corff llywodraethu adolygu'r cwricwlwm a fabwysiadwyd ganddynt yn barhaus, a'i ddiwygio os na fydd yn bodloni'r gofynion cynllunio mwyach. Gallant ei ddiwygio unrhyw bryd ond, os byddant yn gwneud hynny, rhaid iddynt gyhoeddi crynodeb diwygiedig.
- Rhaid i'r pennaeth a'r corff llywodraethu hefyd weithredu'r trefniadau asesu ar gyfer y cwricwlwm, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer asesu dysgwyr ar adeg eu cofrestru gyntaf i’r ysgol.
- Rhaid i'r pennaeth a'r corff llywodraethu adolygu'r trefniadau asesu yn barhaus, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer asesu dysgwyr ar adeg eu cofrestru’n gyntaf a’u diwygio pan fo’n briodol yn unol â’r rheoliadau.
- Mae gan benaethiaid a chyrff llywodraethu y pwerau i ddatgymhwyso dewis dysgwyr mewn rhai amgylchiadau fel y nodir yn Neddf 2021.
- Rhaid i benaethiaid, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol sicrhau bod cwricwla ysgolion ar gyfer dysgwyr oedran ôl-orfodol yn:
  - eang a chytbwys

  - hybu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol dysgwyr a chymdeithas
  - paratoi dysgwyr ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau eu bywydau yn y dyfodol

- Rhaid i’r pennaeth a’r corff llywodraethu sicrhau bod dysgu ac addysgu crefydd, gwerthoedd a moeseg ar gael i'r dysgwyr oedran ôl-orfodol hynny sy'n gofyn amdanynt.

Yn ogystal -

**Y corff llywodraethu:**

- rhaid i’r Corff Llywodraethu naill ai gadarnhau, amrywio neu dynnu’n ôl penderfyniad y pennaeth, os cyflwynir apêl ynghylch datgymhwyso dewis dysgwr, a hysbysu'r dysgwr a'i riant neu ofalwr.
- wrth gyflawni ei swyddogaethau, rhaid i’r Corff Llywodraethu sicrhau bod darpariaeth addysgu a dysgu Addysg Grefyddol ac Addysg Rhyw ar gael i ddysgwyr oedran ôl-orfodol os gwneir cais amdani.
- rhaid i’r Corff Llywodraethu weithredu’n unol â gofynion statudol sy'n ymwneud ag addoli ar y cyd ar gyfer yr ysgol;
- rhaid i’r Corff Llywodraethu glywed cwynion ffurfiol gan rieni *ac eraill* am gwricwlwm yr ysgol, yn unol â gweithdrefnau a sefydlwyd gan yr ALl.

**Y pennaeth:**

- rhaid i’r pennaeth gynllunio cwricwlwm ar gyfer dysgwyr ei ysgol.
- rhaid i’r pennaeth wneud trefniadau ar gyfer asesu pob dysgwr yn barhaus gydol y flwyddyn ysgol gan ymarferydd yn unol â'r rheoliadau. Mae hyn yn cynnwys defnyddio asesiadau personol ar gyfer dysgwyr ym Mlynyddoedd 2 i 9.
- rhaid i’r pennaeth sicrhau bod dysgu ac addysgu Addysg Grefyddol ac Addysg Rhyw ar gael i'r dysgwyr hynny mewn addysg ôl-orfodol sy'n gofyn amdani.
- caiff y pennaeth benderfynu datgymhwyso dewis dysgwr yn achos person ifanc cyn iddo ddechrau blwyddyn 10 neu ar ôl iddo ddechrau blwyddyn 10. Dim ond ar y sail a nodir yn Neddf 2021 y gellir gwneud penderfyniad.
- caiff y pennaeth benderfynu na fydd y cwricwlwm yn gymwys, neu y bydd yn gymwys mewn ffordd wahanol, i ddysgwr unigol am gyfnod dros dro;
- y pennaeth sy’n penderfynu ar y trefniadau ar gyfer addoli ar y cyd, ar ôl ymgynghori â'r corff llywodraethu; a

- rhaid i’r pennaeth ddarparu dogfen llwybr dysgu i ddysgwyr rhwng 16-19 oed, sy'n cofnodi eu llwybr dysgu. Mae rhagor o arweiniad ar gael yma. Bydd canllawiau wedi’u diweddaru ar gael ar lwybrau dysgu erbyn y daw’n amser gweithredu Cwricwlwm Cymru yn llawn o fis Medi 2026 ymlaen.

## Y Cwricwlwm Cenedlaethol

1. Mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn berthnasol i ddysgwyr oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion a gynhelir ar gyfer y blynyddoedd hynny nad ydynt yn destun cwricwlwm mabwysiedig o dan Ddeddf 2021. Fe'i trefnir ar sail camau, sy'n fras fel a ganlyn:

| | Oedran dysgwyr | Grwpiau blwyddyn |
|---|---|---|
| Cyfnod Allweddol 3 | 11-14 | 7-9 |
| Cyfnod Allweddol 4 | 14-16 | 10-11 |

**Cyfnodau Allweddol 3 - 4**

2. Mae'r cwricwlwm ar gyfer cyfnodau allweddol 3 - 4 wedi'i gynllunio o amgylch pynciau a sgiliau. Fe'i cynlluniwyd i ddarparu sylfaen gadarn mewn iaith, mathemateg a gwyddoniaeth, gan roi'r cyfle i ddysgwyr gyflawni hyd orau eu gallu o fewn cwricwlwm eang a chytbwys.

3. Mae'r pynciau canlynol wedi'u cynnwys yn y cwricwlwm cenedlaethol yn y cyfnodau allweddol a ddangosir:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Allweddol 3 | Cymraeg, Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth, dylunio a thechnoleg, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, hanes, daearyddiaeth, celf a dylunio, cerddoriaeth, iaith dramor fodern ac addysg gorfforol. |
| Cyfnod Allweddol 4 | Cymraeg, Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth ac addysg gorfforol. |

4. Ar gyfer pob pwnc, ym mhob un o'r cyfnodau allweddol, mae rhaglenni astudio yn nodi'r hyn y dylid ei addysgu i dysgwyr ynghyd â thargedau cyrhaeddiad sy'n gosod safonau disgwyliedig ar gyfer perfformiad dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.

5. Yng Nghyfnod Allweddol 4, cymwysterau allanol yw'r prif fodd o asesu cyrhaeddiad yn y cwricwlwm cenedlaethol. Cymwysterau Cymru yw’r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer cymwysterau nad ydynt yn raddau yng Nghymru. Mae cronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru yn cynnwys

manylion yr holl gymwysterau sy'n cael eu cymeradwyo neu eu dynodi gan Gymwysterau Cymru, o dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015, ar gyfer addysgu yng Nghymru, heb gynnwys addysg uwch. Mae unrhyw gymwysterau sydd yn cael sêl bendith neu sydd wedi eu dynodi gan Gymwysterau Cymru yn gymwys i gael cyllid gan Awdurdod Lleol neu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r arian hwn ar gyfer y darparwr addysg, nid y dysgwr.

6. Mae'r cwricwlwm lleol i blant 14-19 oed hefyd yn cael ei ddiffinio gan Lwybrau Dysgu a’r dewis o ran cymwysterau.

7. Dylai'r Gorchmynion Pwnc a'r fframweithiau ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol a gyrfaoedd a byd gwaith helpu i gyflawni'r nodau ehangach, gan gynnwys hyrwyddo:

   - addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang;
   - addysg ar gyfer byd gwaith ac entrepreneuriaeth;
   - bwyta'n iach a gweithgarwch corfforol; a
   - datblygiad personol a chymdeithasol, hunan-werth a lles plant a phobl ifanc.

**Trefniadau asesu**

8. Rhaid i benaethiaid wneud trefniadau i ddysgwyr Blynyddoedd 2 i 9 ymhob ysgol a gynhelir yng Nghymru gael asesiadau personol mewn darllen a rhifedd, ac i rannu adroddiadau gyda rhieni a gofalwyr fel rhan o'r broses adrodd arferol. Mae'n rhaid gwneud hyn yn unol â'r gofynion a nodir yn flynyddol yn yr llawlyfr gweinyddu.

9. Rhaid i benaethiaid wneud trefniadau i bob dysgwr yng Nghyfnod Allweddol 3 gael ei asesu drwy gydol y flwyddyn gan athro at ddiben monitro a chefnogi cynnydd y dysgwr ar draws y cwricwlwm cenedlaethol presennol. Mae hyn yn cynnwys cefnogi cynnydd mewn llythrennedd a rhifedd.

10. Yn ogystal, mae'n ofynnol i benaethiaid drefnu i ddysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 ymhob ysgol a gynhelir, heblaw am ysgolion arbennig, gael eu hasesu gan athrawon ym mhob pwnc perthnasol yn erbyn y targedau cyrhaeddiad a amlinellir yn y rhaglenni astudio. Asesir cyrhaeddiad yn erbyn disgrifiadau Lefel sy'n rhedeg o Lefel 1 hyd at Lefel 8, gyda Pherfformiad Eithriadol yn eistedd uwchben hynny.

11. Mae'r disgrifiadau lefel yn disgrifio'r mathau a’r ystod o berfformiad y dylai dysgwyr sy'n gweithio ar lefel benodol eu dangos yn nodweddiadol. Mae'r disgrifiadau lefel yn cyfeirio at gyflawniad dysgwr dros amser a thros amrywiaeth o waith, gan roi golwg gyfannol ar nifer o nodweddion gwahanol.

12. Penderfynir ar ddyfarniad drwy ddadansoddiad ffit gorau, lle ystyrir pob disgrifiad ar y cyd â'r disgrifiadau ar gyfer canlyniadau neu lefelau cyfagos, a dyrennir y canlyniad neu'r lefel i’r dysgwr y mae’n ei chyrraedd yn bendant. Mae'n debygol y bydd y dysgwr yn arddangos rhai nodweddion o’r canlyniadau neu'r lefelau cyfagos ond mae'n rhaid i farn grynodol ddeillio o’r canlyniad neu'r lefel sy'n gweddu orau i gyflawniad cyffredinol y dysgwr.

13. Mae dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 ymhob ysgol a gynhelir, ac eithrio ysgolion arbennig, yn cael eu hasesu'n statudol yn erbyn y disgrifyddion lefel ym mhob un o bynciau craidd y cwricwlwm, sef Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith (yn ôl iaith gyffredinol hyfforddiant), Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth, hanes, daearyddiaeth, TGCh, addysg gorfforol, ieithoedd tramor modern, celf a dylunio, dylunio a thechnoleg a cherddoriaeth.

14. Mae adroddiadau ar ddiwedd y cyfnod allweddol yn cynnwys asesiad cyffredinol ar gyfer y pwnc ynghyd ag asesiadau ar wahân ar gyfer agweddau penodol o'r pwnc, lle bo angen. Er enghraifft, mae gan Cymraeg, Cymraeg ail iaith a Saesneg dargedau cyrhaeddiad ar wahân ar gyfer llefaredd, darllen ac ysgrifennu.

15. Bydd asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 3 athrawon yn parhau ym mhob ysgol a gynhelir heblaw am ysgolion arbennig, nes i'r gwaith o gyflwyno’r Cwricwlwm i Gymru gyrraedd Blwyddyn 9 ym mis Medi 2024.

## Y fframwaith sgiliau anstatudol

16. Mae fframwaith sgiliau anstatudol yn sail i'r cwricwlwm. Mae hwn yn ceisio helpu i roi'r sgiliau angenrheidiol i bobl ifanc ar gyfer cyflawni eu potensial wrth eu gwaith.

## Addysg Bersonol a Chymdeithasol

17. Mae addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn ddogfen sy’n rhan o'r cwricwlwm sylfaenol i bob disgybl cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir, ac eithrio'r dysgwyr hynny sy'n ddarostyngedig i gwricwlwm o dan Ddeddf 2021.

18. *Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7-19 oed yng Nghymru* yw'r ddogfen y dylai darparwyr dysgu ei defnyddio i adolygu a datblygu darpariaeth ABCh er mwyn sicrhau eu bod yn llunio a chyflenwi rhaglen ABCh eang a chytbwys i fodloni anghenion penodol dysgwyr 7 hyd 19 oed[1].

19. Mae'r fframwaith ABCh hefyd yn mynd ymlaen i'r elfennau o'r Craidd Dysgu sy'n ymwneud â ABCh.

20. Mae ABCh yn cynnwys popeth y mae ysgol yn ei wneud i gefnogi a hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol a lles ei dysgwyr. Mae'n galluogi plant a phobl ifanc i ddatblygu ymdeimlad o hunan-werth a rhyngweithio'n effeithiol ag eraill. Mae dysgwyr yn cael yr adnoddau i fod yn fwy gwybodus, hyderus a medrus er mwyn cymryd rhan weithredol a chyfrifol mewn cymdeithas a gwella dysgu, cymhelliant a chyflawniad.

## Addysg sy'n gysylltiedig â gwaith

21. Mae Gyrfaoedd a Byd Gwaith (GBG) yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol i bob disgybl cofrestredig rhwng 11 ac 16 oed mewn ysgolion a gynhelir, ac eithrio'r rhai sy'n destun cwricwlwm o dan Ddeddf 2021. Mae hefyd yn rhan o ofynion y Craidd Dysgu ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19.

22. *Gyrfaoedd a byd gwaith: fframwaith i ddysgwyr 11 i 19 oed yng Nghymru* yw'r ddogfen allweddol y dylai darparwyr dysgu ei defnyddio i adolygu a datblygu darpariaeth GBG ar gyfer dysgwyr 11 i 19 oed.

23. Ategir y fframwaith gan ganllawiau a luniwyd i ddarparu detholiad o ddeunyddiau allweddol i gydgysylltwyr i'w cynorthwyo i reoli'r maes hwn.

24. Wrth addysgu addysg bersonol a chymdeithasol a gyrfaoedd a byd gwaith, bydd cyrff llywodraethu rhoi sylw dyledus i unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan Senedd Cymru – gweler Adran100(8) o Ddeddf Addysg 2002

## Addysg rhyw

25. Mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu pob ysgol a gynhelir wneud datganiad ysgrifenedig ar wahân o'u polisi o ran darparu addysg rhyw, a'i gadw'n gyfredol.

26. Mae hefyd yn ofynnol i ysgolion sicrhau bod copïau o hwn ar gael i'w archwilio gan rieni disgyblion sydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol. Rhaid

[1] Dim ond i ddysgwyr sy'n ddarostyngedig i'r cwricwlwm sylfaenol y mae hyn yn berthnasol.

iddyn nhw hefyd ddarparu copi o'r datganiad am ddim i unrhyw riant sy'n gofyn am un.

27. Nid yw'n ofynnol i ysgolion cynradd ddarparu addysg rhyw a chydberthynas benodol, ond rhaid iddynt gyflwyno agweddau ar addysg rhyw sydd wedi’u cynnwys yn y cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru, er enghraifft, yn y gorchmynion pwnc ar gyfer gwyddoniaeth.

28. Mae p'un a yw ysgol gynradd yn penderfynu darparu addysg rhyw ehangach yn ôl disgresiwn yr ysgol. Mater i gorff llywodraethu pob ysgol, mewn ymgynghoriad â rhieni a gofalwyr, yw penderfynu sut orau i ymdrin ag addysg rhyw yn unol ag anghenion dysgwyr a chymeriad ac ethos yr ysgol.

29. Mae'n ofynnol i bob ysgol uwchradd a gynhelir ddarparu addysg rhyw i bob disgybl sydd wedi’i gofrestru yno fel rhan o gwricwlwm sylfaenol yr ysgol. Mae yna gyfleoedd clir i ddysgu addysg rhyw a chydberthynas o fewn y cwricwlwm. Fe'i darperir yn bennaf drwy *Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol i blant 7 i 19 oed yng Nghymru*

30. Caiff ysgolion arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion ddarparu addysg rhyw i ddysgwyr oedran cynradd. Mae’n rhaid iddyn nhw ddarparu addysg rhyw i ddysgwyr oedran uwchradd sydd wedi cofrestru yn yr ysgol.

31. Mae adran 403 o Ddeddf Addysg 1996 yn gosod dyletswydd ar gorff llywodraethu a phennaeth ysgol a gynhelir i gymryd camau sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau, pan roddir addysg rhyw, ei bod yn cael ei rhoi mewn modd sy'n annog y disgyblion i roi sylw dyladwy i ystyriaethau moesol a gwerth bywyd teuluol.

32. Mae adran 403(1A) o Ddeddf Addysg 1996 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau a ddyluniwyd i sicrhau, pan fo addysg rhyw yn cael ei rhoi i ddisgyblion eu bod yn dysgu am natur priodas a'i phwysigrwydd i fywyd teuluol a magu plant, a'u bod yn cael eu diogelu rhag addysgu a deunyddiau sy'n amhriodol o ystyried oedran a chefndir crefyddol a diwylliannol y disgyblion dan sylw.

33. Mae gan ddysgwyr yr hawl, fel a ddarperir gan Erthygl 12 o Gonfensiwn y CCUHP, i gyfrannu mewn ffordd ystyrlon at ddatblygu ac adolygu rhaglen addysg rhyw a rhaglen addysg rhyw a pherthnasoedd.

34. Rhaid i'r polisi hefyd gynnwys datganiad am hawl rhieni i dynnu eu plentyn allan o addysg rhyw. Rhaid i ysgolion gadw cofnod ysgrifenedig o'u penderfyniadau.

35. Yn rhinwedd adran 405 o Ddeddf Addysg 1996 *if the parent of any pupil in attendance at a maintained school requests that he or she may be wholly or partly excused from receiving sex education at the school, the pupil shall, except so far as such education is comprised in the National Curriculum, be so excused accordingly until the request is withdrawn*..

36. Darperir canllawiau ar addysg rhyw yn *Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn Ysgolion*; Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru: 019-2010 a gyhoeddwyd ym mis Medi 2010. Mae'n orfodol i gyrff llywodraethu ac athrawon roi sylw *dyledus* i'r canllawiau hynny.

**Addysg grefyddol**

37. Rhaid i bob ysgol a gynhelir ddarparu addysg grefyddol i bob disgybl a gofrestrwyd ynddi (ar wahân i'r rhai sydd wedi cael eu tynnu'n ôl gan eu rhieni). Mae ysgolion yn dilyn y maes llafur y cytunwyd arno ar gyfer yr ardal, sy'n cael ei llunio gan y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog lleol ar Addysg Grefyddol (SACRE), cynhadledd leol o athrawon, eglwysi lleol a grwpiau ffydd, a'r Awdurdod Lleol a dylid ei adolygu bob pum mlynedd. Mae'r corff llywodraethu yn rhannu cyfrifoldeb gyda'r ALl a'r pennaeth dros sicrhau bod y gofynion o ran addysg grefyddol yn cael eu bodloni.

38. Rhaid i bob maes llafur y cytunir arno'n lleol adlewyrchu'r ffaith mai traddodiadau Cristnogol yw'r prif draddodiadau crefyddol ar y cyfan yn Y Deyrnas Unedig, gan ystyried ar yr un pryd ddysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir yn y Deyrnas Unedig. Nid bwriad Addysg Grefyddol yw hyrwyddo ffydd neu grefydd benodol ond dylai archwilio amrywiaeth o gwestiynau athronyddol, diwinyddol, moesegol ac ysbrydol.

39. Bydd union natur addysg grefyddol mewn ysgol sefydledig neu wirfoddol yn dibynnu ar gymeriad crefyddol yr ysgol a bydd yn unol â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol neu, lle na wneir darpariaeth gan weithred ymddiriedolaeth, yn unol â'r uchod.

**Barn wleidyddol: addysgu gwleidyddiaeth mewn ysgolion**

40. Rhaid i'r corff llywodraethu, y pennaeth a'r Awdurdodau Lleol beidio â chaniatáu i unrhyw athro hyrwyddo safbwyntiau gwleidyddol unochrog wrth addysgu. Mae'n rhaid i athrawon gyflwyno safbwyntiau gwahanol mewn ffordd gytbwys wrth ymdrin â materion gwleidyddol.

41. Fodd bynnag, rhaid i ysgolion, penaethiaid, staff ysgolion ac Awdurdodau Lleol gydymffurfio â'r gyfraith, sy'n cynnwys atal disgyblion iau (disgyblion sydd o dan 12 oed) rhag dilyn gweithgareddau gwleidyddol pleidiol yn yr ysgol. Mae hefyd yn gwahardd hyrwyddo safbwyntiau gwleidyddol pleidiol

wrth addysgu unrhyw bwnc i unrhyw ddisgybl. Lle mae gweithgareddau'n digwydd oddi ar safle'r ysgol nid oes hawl gan ddisgyblion iau gymryd rhan os trefnwyd hwy gan unrhyw aelod o staff mewn ysgol neu unrhyw un sy'n gweithredu ar ran yr ysgol.

42. Rhaid iddynt hefyd gymryd camau i sicrhau bod materion gwleidyddol yn cael eu cyflwyno'n gytbwys i ddisgyblion, ym mhob achos. Mae hyn yn cynnwys lle y daw materion gwleidyddol i sylw disgyblion pan fônt yn yr ysgol neu wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau allgwricwlar sy'n cael eu darparu neu eu trefnu yn yr ysgol neu ar ran yr ysgol.

**Amgylchiadau lle na fydd y Cwricwlwm efallai'n berthnasol**

43. Mae'r Cwricwlwm yn cynnig cyfleoedd eang i athrawon ddelio ag anghenion pob plentyn. Dim ond mewn amgylchiadau prin y bydd angen datgymhwyso disgybl o'r cwricwlwm.

44. Mae dogfennau'r cwricwlwm yn cynnwys datganiad ar gyfrifoldebau'r ysgolion ynglŷn â deddfwriaeth cyfle cyfartal a hawliau dysgwyr. Mae athrawon yn defnyddio eu crebwyll wrth ddewis cynnwys priodol i'r cwricwlwm ac efallai y bydd angen gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer rhai dysgwyr ag anghenion addysgol ychwanegol.

45. Lle mae angen datgymhwyso disgybl gellir gwneud hyn drwy:

- datganiad o anghenion addysgol arbennig, a allai ddweud na ddylai rhan o'r cwricwlwm, neu'r cwbl ohono, fod yn gymwys i ddisgybl unigol neu y dylid ei newid ar ei gyfer. Os oes gan blentyn ddatganiad o'r fath, bydd gan yr ysgol gopi a bydd fel arfer wedi helpu i'w lunio. Dim ond mewn achosion eithriadol y dylid defnyddio datgymhwysiad gan fod digon o hyblygrwydd yn y cwricwlwm i ddiwallu'r rhan fwyaf o anghenion (adran 113 o Ddeddf Addysg 2002);

- Caiff y pennaeth hefyd eithrio disgyblion unigol o'r cwricwlwm dros dro. Gall penaethiaid wneud dau fath o gyfarwyddyd, gan godi neu addasu rhai neu'r holl ofynion am hyd at chwe mis ar y tro (adran 114 o Ddeddf Addysg 2002):

    a. cyfarwyddiadau cyffredinol i ddisgyblion gyda phroblemau tymor byr y mae disgwyl iddynt gymryd rhan lawn yn y pwnc yn y Cwricwlwm Cenedlaethol unwaith eto o fewn chwe mis; er enghraifft disgyblion sy'n cyrraedd o system addysgol mor wahanol y mae angen iddynt gael addasu'r cwricwlwm; disgyblion sydd wedi cael cyfnodau yn yr ysbyty; disgyblion sydd â phroblemau emosiynol difrifol dros dro;

b. ‘cyfarwyddiadau' arbennig ar gyfer disgyblion y mae'r pennaeth yn ystyried y dylid eu hasesu neu eu hailasesu ar gyfer datganiad o anghenion addysg arbennig ac angen codi un neu ragor o ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol er eu mwyn yn y cyfamser. Rhaid i unrhyw gyfarwyddyd nodi pryd bydd y trefniadau eithriadol yn cychwyn ac yn gorffen, neu'r ffactorau a fydd yn penderfynu ar ddod â hwy i ben. Efallai na fydd cyfarwyddyd cychwynnol yn para mwy na chwe mis calendr.

46. Fodd bynnag, mae disgwyl bod penaethiaid yn defnyddio'u pwerau cyfarwyddo mewn modd sensitif ac yn anaml gan y dylai pob disgybl gael y cyfle i fanteisio ar holl ystod pynciau'r cwricwlwm cenedlaethol.

47. Rhaid i'r pennaeth anfon copïau o unrhyw gyfarwyddyd at y corff llywodraethu, yr ALl ac o leiaf un o rieni'r disgybl. Os nad yw'r rhieni'n fodlon, cânt wneud apêl at y corff llywodraethu. Gall y corff llywodraethu gadarnhau gweithredoedd y pennaeth neu roi orchymyn y pennaeth i newid y penderfyniad. Os yw rhieni'n credu bod y corff llywodraethu wedi gweithredu'n afresymol wrth benderfynu ar eu hapêl, cânt ddefnyddio gweithdrefnau'r ALl, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru, ar gyfer ymdrin â chwynion am weithredoedd cyrff llywodraethu ac Awdurdodau Lleol mewn perthynas â'r cwricwlwm.

48. Darperir rhagor o wybodaeth am y cwricwlwm o ran disgyblion ag ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol) ym mhennod 13.

**Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2006**

49. Mae pob awdurdod lleol yn gyfrifol am lunio un neu fwy o gwricwla lleol ar gyfer ei ardal ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4. Bydd Gweinidogion Cymru’n llunio'r cwricwlwm lleol ar gyfer dysgwyr rhwng 16 ac 18 oed. Rhaid i'r cwricwlwm lleol gynnwys o leiaf 25 o gyrsiau yng Nghyfnod Allweddol 4 (a rhaid i o leiaf 3 o’r rhain fod yn alwedigaethol) a 30 o gyrsiau ôl-16 a rhaid iddynt gynnwys amrywiaeth eang o gyrsiau astudio academaidd a galwedigaethol eu natur.

50. Rhaid i gyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion uwchradd a gynhelir gynorthwyo'r awdurdod lleol i lunio'r cwricwla lleol ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 4 a Gweinidogion Cymru i lunio'r cwricwla lleol ar gyfer myfyrwyr rhwng 16 ac 18 oed.

51. Mewn perthynas â'r cwricwlwm lleol ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 4 a myfyrwyr ôl-16, rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir gymryd pob cam rhesymol i gynyddu i’r eithaf nifer y cyrsiau astudio sydd ar gael a gynhwysir yn y cwricwlwm ar gyfer ardal yr ALl.

52. Rhaid i bennaeth ddarparu dogfen llwybr dysgu i ddisgyblion a myfyrwyr yr ysgol sy’n cofnodi eu llwybr dysgu, gan gynnwys cyrsiau astudio y mae gan y disgybl neu'r myfyriwr hawl i’w dilyn ac unrhyw wasanaethau cymorth i ddysgwyr a ddarperir.

53. Pan fo hawl gan ddisgybl neu fyfyriwr (16 i 18 oed) i ddilyn cwrs astudio yng Nghyfnod Allweddol 4 neu ôl-16, rhaid i gorff llywodraethu ysgol y disgybl neu fyfyriwr sicrhau bod y cwrs ar gael i'r disgybl neu fyfyriwr.

54. Os bodlonir pennaeth yr ysgol, mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch hawliau, fod unrhyw un o'r seiliau a nodir yn adran 116F o Ddeddf Addysg 2002 neu adran 33G ar Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn berthnasol, yna caiff y pennaeth benderfynu nad oes gan ddisgybl yr hawl i ddilyn cwrs astudio yr oedd wedi ei dewis ei ddilyn.

55. Yn yr un modd, os yw pennaeth yn fodlon, mewn perthynas â phenderfyniadau i ddileu hawl, fod unrhyw un o'r seiliau a nodir yn adran 116H o Ddeddf Addysg 2002 neu adran 33l o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 yna caiff y pennaeth benderfynu nad oes gan ddisgybl yr hawl bellach i ddilyn cwrs astudio yr oedd ganddo/hi hawl i'w ddilyn.

56. Mae'n ddyletswydd ar benaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion uwchradd a gynhelir, i roi sylw dyledus i gyfres o ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ac i gydymffurfio â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru.

**Yn gryno:**

**Y corff llywodraethu a'r pennaeth:**

- Mae ganddynt ddyletswydd i sicrhau bod y cwricwlwm cenedlaethol yn cael ei weithredu yn eu hysgolion; a
- rhaid iddynt gynorthwyo'r awdurdod lleol a Gweinidogion Cymru i gynllunio'r cwricwlwm lleol ar gyfer disgyblion a myfyrwyr Cyfnod Allweddol 4 ac ôl-16.

**Y corff llywodraethu:**

- mewn ysgolion cynradd rhaid iddo gytuno ar bolisi addysg rhyw a chydberthynas, a chadw datganiad ysgrifenedig o'r polisi hwnnw;
- mewn ysgolion uwchradd, rhaid iddo gael datganiad ysgrifenedig o'r polisi rhyw a chydberthynas sydd i'w ddarparu yn yr ysgol;
- rhaid iddo fabwysiadu polisi cwricwlwm ar gyfer yr ysgol;

- rhaid iddo weithredu’n unol â gofynion statudol sy'n ymwneud ag addysg grefyddol ac addoli ar y cyd ar gyfer yr ysgol;
- rhaid iddo glywed unrhyw apêl yn erbyn penderfyniad pennaeth i godi neu newid gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer plentyn, a gall ddiystyru'r penderfyniad hwnnw;
- rhaid iddynt gymryd pob cam rhesymol er mwyn cynyddu i’r eithaf nifer y cyrsiau astudio sydd ar gael a gynhwysir yng nghwricwlwm lleol Cyfnod Allweddol 4 ac ôl-16;
- rhaid iddynt, pan fo gan ddisgybl neu fyfyriwr hawl i ddilyn cwrs astudio, sicrhau bod y cwrs ar gael iddynt;
- rhaid iddo glywed cwynion ffurfiol gan rieni *ac eraill* am gwricwlwm yr ysgol, yn ôl gweithdrefnau a sefydlwyd gan yr ALl; a
- rhaid iddo sicrhau bod canlyniadau asesu cyflawn yr ysgol yn cael eu cyflwyno i'r ALl.

**Y pennaeth:**

- sy’n gyfrifol am y ffordd y caiff y ysgol ei rhedeg o ddydd i ddydd;
- sy’n paratoi polisi cwricwlwm ar gyfer yr ysgol;
- caiff benderfynu na fydd y Cwricwlwm Cenedlaethol yn berthnasol, neu y bydd yn berthnasol mewn ffordd wahanol, i ddisgybl unigol dros dro;
- sy’n penderfynu ar y trefniadau ar gyfer addoli ar y cyd, ar ôl ymgynghori â'r corff llywodraethu;
- rhaid iddo gyflwyno canlyniadau asesiadau diwedd cyfnod allweddol gan athrawon ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 at ddibenion casglu data cenedlaethol; a
- rhaid iddo ddarparu dogfen llwybr dysgu i ddisgyblion neu fyfyrwyr, rhwng 14-19 oed, sy'n cofnodi eu llwybrau dysgu.

## Y gyfraith

Deddf Addysg 1996, Rhannau 1 a 5. (Saesneg yn unig)
Deddf Addysg 2002, Rhan 7. (Saesneg yn unig)
Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio) (Cymru) 2008
Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2008
Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Cyfnod Sylfaen) (Cymru) (Diwygio) 2008
Gorchymyn y Cwricwlwm Ysgol yng Nghymru (Diwygiadau Amrywiol) 2008.
Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009
Deddf Cymwysterau Cymru 2015

**Rheoliadau**

Education (National Curriculum) (Temporary Exceptions for Individual Pupils) (Wales) Regulations 1999 (Saesneg yn unig)
Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000
Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion) (Cymru) 2004
Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) 2009
Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) (Diwygio) 2007

## Gofynion statudol eraill

### Bagloriaeth Cymru

1. Cyflwynwyd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar ei ffurf bresennol ym mis Medi 2015.

2. Nid yw Bagloriaeth Cymru yn orfodol yng nghyfnod allweddol 4 a pholisi Llywodraeth Cymru yw annog pob ysgol a choleg i'w chynnig fel rhan o'u rhaglenni dysgu.

3. Mae Bagloriaeth Cymru wedi'i seilio ar gyfuniadau penodol o gymwysterau sy'n helpu dysgwyr i elwa i'r eithaf ar y profiadau a'r sgiliau hyn. Mae'r cymhwyster yn cynnwys Tystysgrif Her Sgiliau; mae hon yn asesu'r sgiliau y mae eu hangen ar bobl ifanc ar gyfer coleg, prifysgol, cyflogaeth a bywyd. Ochr yn ochr â'r Dystysgrif Her Sgiliau, mae dysgwyr yn astudio detholiad o gymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a galwedigaethol sy'n briodol i'w hanghenion er mwyn derbyn Bagloriaeth Cymru.

4. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu canllawiau sy'n esbonio Bagloriaeth Cymru a gellir eu gweld drwy clicio ar y ddolen isod:
   Bagloriaeth Cymru | LLYW.CYMRU

5. Ceir gwybodaeth fanwl am Fagloriaeth Cymru ar wefan CBAC:
   Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen (cbac.co.uk)

6. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch Bagloriaeth Cymru ar wefan Cymwysterau Cymru:
   Cymwysterau Cymru / Bagloriaeth Cymru (qualificationswales.org)

**Gwybodaeth bellach am asesiadau personol (Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol cynt)**

7. Mae asesiadau personol ar-lein wedi cymryd lle profion cenedlaethol mewn darllen a rhifedd. Bydd y gofyniad i ddysgwyr blynyddoedd 2 i 9 mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru gymryd asesiadau personol mewn darllen a rhifedd bob blwyddyn yn parhau i fod yn berthnasol yn ystod y broses o gyflwyno Cwricwlwm Cymru, ac wedi hynny, er y bydd y Rheoliadau'n cael eu diweddaru i adlewyrchu eu rhoi ar waith yn ymarferol. Nod asesiadau personol yw helpu i sicrhau dealltwriaeth o gynnydd dysgwyr unigol fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r asesiadau at ddibenion ffurfiannol, ac maent yn darparu amrywiaeth o adborth ar unigolion a grwpiau sy'n helpu i sicrhau dealltwriaeth o gryfderau a meysydd i'w gwella.

8. Maent ar gael i'w defnyddio'n hyblyg gydol y flwyddyn, fel bod modd i ysgolion drefnu i'w cynnal ar yr adeg a fyddai'n fwyaf buddiol iddynt. Rhaid i bob pennaeth ysgol dderbyn y cytundeb rhannu data ar gyfer eu hysgolion er mwyn i staff yr ysgol allu amserlennu asesiadau a chael gafael ar adroddiadau i'w helpu gyda'u gwaith cynllunio.

9. Dylai penaethiaid ac athrawon roi ystyriaeth lawn i gynnwys y llawlyfr gweinyddu wrth gynllunio, amserlennu a gweinyddu'r asesiadau personol.

10. Does dim rheidrwydd cyfreithiol ar ysgolion i adrodd canlyniadau'r asesiadau personol i'w hawdurdod lleol.

11. Mae'n rhaid i ysgolion rannu canlyniadau'r asesiadau â rhieni/gofalwyr fel rhan o'r broses adrodd arferol. Yr adroddiadau y maen rhaid eu rhannu yw: adborth ar Rifedd (Gweithdrefnol) a Darllen, ac adroddiadau cynnydd dysgwyr unigol ym mhob pwnc. Mae rhagor o fanylion yn y llawlyfr gweinyddu.

12. Ni ddylai'r asesiadau yn destun gofid na phryder i ddysgwyr ac mae'n bwysig iawn bod ysgolion yn talu sylw i sut y caiff yr asesiadau eu cyflwyno.

**Addoli ar y cyd**

13. Rhaid i bob ysgol a gynhelir ddarparu addoliad ar y cyd bob dydd sy'n fras Gristnogol i'w holl ddisgyblion cofrestredig, gan gynnwys y rhai ôl-16 (adran 70 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ('y Ddeddf')y DU.

14. Gall rhiant neu warchodwr dynnu eu plentyn yn ôl o addoliad ar y cyd (adran 71 o'r Ddeddf).

15. Mae adran 71 o Ddeddf 1998 yn caniatáu i ddisgyblion chweched dosbarth mewn ysgolion cymunedol, cymunedol arbennig, gwirfoddol, sefydledig a sefydledig arbennig a gynhelir yr hawl i dynnu'n ôl o addoli ar y cyd. Cyhoeddodd Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol ar Addysg Grefyddol Cymru ganllawiau i ysgolion ar y newid hwn yn y gyfraith hefyd.

16. Mewn ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol wirfoddol a reolir â chymeriad crefyddol, bydd addoli ar y cyd yn unol a gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol. Os na wneir darpariaeth gan y weithred ymddiriedolaeth, dylai'r addoliad fod yn unol â chredoau'r grefydd neu'r enwad a bennir ar gyfer yr ysgol (adran 69 o'r Ddeddf).

17. Mae addoli ar y cyd a'r cynulliad yn weithgareddau gwahanol. Er y gallant fod yn rhan o'r un digwyddiad, dylai'r gwahaniaeth rhwng y ddau fod yn glir. Gall addoli ar y cyd, serch hynny, fod yn gysylltiedig â dyheadau bywyd dydd i ddydd a phryderon yr ysgol. Mae'r corff llywodraethu'n rhannu cyfrifoldeb gyda'r pennaeth a'r ALl am sicrhau bod y gofynion yn cael eu bodloni. Y pennaeth sy'n gyfrifol am drefnu addoli ar y cyd ar ôl ymgynghori â'r corff llywodraethu.

18. Gall fod achosion eithriadol lle, o ystyried cefndir teuluol rhai disgyblion, bod y pennaeth a'r corff llywodraethu yn teimlo nad yw gweithred addoliad fras-Gristnogol yn addas. O dan yr amgylchiadau hyn gall y pennaeth wneud cais i'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol lleol i godi neu addasu'r gofynion. Cyn gwneud hynny, mae'n ddoeth i'r corff llywodraethu ymgynghori gyda rhieni.

19. Mae'n rhaid i bob ALl sefydlu gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion am weithredoedd cyrff llywodraethu ac ALlau ar y cwricwlwm (adran 409 o Ddeddf Addysg 1996).